CYNLLUN STRATEGOL AR GYFER GALLU CORFFORAETHOL 2018-2022

IONAWR 2018

NESAF

Trosolwg

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru ym mis Medi 2015, ac mae wedi cwblhau dwy flynedd o waith yn llwyddiannus. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer parhau i ddatblygu Cymwysterau Cymru fel sefydliad effeithlon, effeithiol a chynaliadwy dros y tair i bum mlynedd nesaf.

Ein pobl yw hanfod Cymwysterau Cymru, ac mae cyflogau a chostau datblygu staff yn cynrychioli bron dwy ran o dair o'n gwariant. Ein blaenoriaeth yw recriwtio a datblygu pobl sydd â'r sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r ymddygiadau cywir, a chreu amgylchedd lle y gallant ffynnu a thyfu. Rydym hefyd yn ceisio meithrin cydberthnasau cadarn ac effeithiol â'r rhai a reoleiddiwn, y rhai a gefnogwn, y rhai rydym yn cydweithio â nhw a'r rhai sy'n rhoi cyngor a gwasanaethau i ni.

Fel sefydliad ifanc, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i atgyfnerthu ein henw da. Rydym yn ceisio gwneud penderfyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn rhoi gwybodaeth glir. Rydym am barhau i ennyn ymddiriedaeth drwy reoli ein hadnoddau'n gadarn a sicrhau arferion corfforaethol effeithiol sy'n cydymffurfio.

Mae'r cynllun strategol hwn yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn gweithio fel corff corfforaethol, gyda phwyslais ar y ffordd y mae gwasanaethau corfforaethol yn cefnogi ein gweithgareddau rheoleiddio. Mae'n disgrifio'r pum prif faes y bydd gwasanaethau corfforaethol yn canolbwyntio arnynt ac yn disgrifio rhai o'r heriau a wynebwn fel sefydliad bach â chylch gwaith mawr sy'n bwysig yn gyhoeddus.

Caiff y ddogfen hon ei hategu gan ein strategaethau TG, Caffael, Llywodraethu, Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid a Datblygu'r Gweithlu.

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n gwaith:

- **Cydweithredol o ran ein ffordd o weithio**
- **Ystyriol** o ran ein dulliau gweithredu
- **Cadarnhaol** o ran ein hagwedd
- **Dysgu** o brofiad a chan eraill

Ein Dull o Ddarparu Gwasanaethau Corfforaethol

Mae gan ein swyddogaethau corfforaethol ystod o gyfrifoldebau yn y sefydliad. Maent yn arwain y broses o ddewis pobl ac asedau ac yn helpu i ddatblygu gallu. Maent wrth wraidd ein trefniadau llywodraethu, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac arfer gorau. Maent yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Maent hefyd yn ein herio i feddwl am y ffordd orau o sicrhau mwy o werth am arian yn yr hirdymor. Wrth wneud hynny, maent yn diogelu ein henw da. Ar yr un pryd, mae'n bwysig eu bod yn cefnogi staff mewn rolau rheoleiddio i ganolbwyntio ar gyflawni, drwy lunio prosesau a pholisïau sy'n hawdd eu deall a'u dilyn, a thrwy ymateb yn gyflym i ymholiadau a materion.

Felly, rydym wedi buddsoddi mewn gweithwyr proffesiynol a all sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i roi mesurau rheoli cadarn ar waith a'r angen i ymateb yn gyflym heb fod yn rhy fiwrocratig. Rydym yn credu y dylai staff yn ein swyddogaethau corfforaethol ddeall ein dyletswyddau a'n pwerau a'r ffordd yr hoffem reoleiddio – ac y dylent allu cyfrannu arbenigedd proffesiynol lle y bo'n berthnasol. Rydym hefyd yn credu mewn gwaith tîm ac yn cydnabod, fel sefydliad bach, y bydd angen i staff arbenigol fod yn hyblyg a chefnogi ei gilydd. Rydym yn edrych tuag allan ac yn cydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill fel bod pob un ohonom yn elwa ar rannu gwybodaeth ac arbenigedd.

Rydym yn ceisio dysgu o brofiad. Mae ein swyddogaethau corfforaethol yn ymgymryd â mathau o waith sicrwydd allanol yn rheolaidd (gan gynnwys archwiliadau mewnol ac allanol, achrediadau trydydd parti, adolygiadau gan gymheiriaid, arolygon staff a meincnodi allanol). Rydym yn defnyddio adborth i barhau i ddatblygu gallu.

Gwasanaethau Corfforaethol



Meysydd ffocws

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio ein meysydd ffocws:

- Galluogi ein gwaith rheoleiddio
- Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau
- Cynnal a defnyddio sgiliau proffesiynol
- Llywodraethu'n effeithiol ac yn effeithlon
- Gwerthuso a gwella'n barhaus

Heriau

Mae hefyd yn disgrifio'r heriau a wynebwn o ran:

- Gweithredu fel sefydliad bach
- Y rhagolwg ariannol tymor canolig
- Rheoli newidiadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau neu bolisïau
- Rheoli risgiau i'n henw da

Maes ffocws 1

Galluogi ein gwaith rheoleiddio

Rydym am i'n staff rheoleiddio gael eu cefnogi yn eu gwaith. Rydym wedi ymroi i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoli arian cyhoeddus ag uniondeb, heb greu prosesau biwrocratig sy'n ein hatal rhag gweithredu ac yn cyfyngu ar ein heffeithiolrwydd.

Mae hyn yn golygu bod ein timau corfforaethol yn creu polisïau a phrosesau clir sy'n galluogi, sy'n hawdd eu dilyn ac sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg. Mae'n golygu sicrhau'r lefel gywir o reolaeth, fel bod y mesurau diogelu sydd eu hangen arnom ar waith ond fel y gallwn fod yn hyblyg hefyd. Rydym yn annog ein staff corfforaethol i fod yn hawdd mynd atynt ac i ymateb i ymholiadau'n gyflym.

Yn bwysicach oll, rydym yn hyfforddi ac yn cefnogi staff rheoleiddio, yn enwedig rheolwyr llinell a deiliaid cyllidebau, fel eu bod yn hyderus yn derbyn y cyfrifoldebau corfforaethol a ddirprwyir iddynt.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau yn barhaus, a gwrando ar adborth
- ymgymryd ag archwiliadau a phrosiectau sicrwydd trydydd parti yn rheolaidd lle y bo'n briodol
- rhoi cyfleoedd yn rheolaidd i dimau rheoleiddio gael hyfforddiant ac arweiniad
- sicrhau bod staff corfforaethol ar gael i ymateb i ymholiadau
- osgoi oedi drwy helpu timau rheoleiddio i flaengynllunio pan fydd gwaith yn galw am gyfraniad sylweddol gan staff corfforaethol
- sicrhau bod y sefydliad yn gwneud penderfyniadau tryloyw.

Maes ffocws 2

Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Mae adnoddau Cymwysterau Cymru yn cynnwys ei bobl, yr hyn y mae'n ei wario ar gaffael neu grantiau a'i asedau ffisegol. Mae'r asedau hyn yn cynnwys ein swyddfeydd, ein seilwaith TG, meddalwedd swyddfa a systemau pwrpasol.

Ein nod yw sicrhau'r gwerth mwyaf o'r adnoddau hyn. Pan fyddwn yn caffael neu'n rhoi grantiau, rydym yn sicrhau bod ein prosesau yn galluogi ein cyflenwyr neu dderbynwyr y grant i ymateb yn effeithiol. Rydym hefyd yn cydweithredu â chyrff eraill lle y bo'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion, ac rydym yn ystyried costau a manteision ein penderfyniadau gwario.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Llunio cynllun busnes blynyddol a dyrannu cyllidebau, yn unol â'n strategaethau tymor hwy a'n cynllun ariannol tymor canolig
- Llunio adroddiadau a rhagolygon ariannol clir
- Datblygu a chyflawni ein strategaeth gaffael
- Cynnal prosesau clir ar gyfer dyfarnu contractau a grantiau, a rheoli canlyniadau
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn glir â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Rydym yn ceisio creu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi gweithio ystwyth. Mae hyn yn golygu polisïau pobl a TG sy'n hyblyg a swyddfa sy'n groesawgar ac sy'n annog cydweithio.

Mae dysgu yn werth craidd, ac rydym yn ceisio datblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder pob aelod o'n staff.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gofalu am lesiant ac iechyd a diogelwch ein staff
- Helpu staff i gyflawni hyd eithaf eu potensial drwy ddysgu a datblygu'n barhaus
- Cyflawni ein strategaeth TG er mwyn datblygu ein seilwaith, gan ddarparu offer TG sy'n galluogi pobl i weithio'n ddi-dor mewn lleoliadau gwahanol
- Hyfforddi staff i reoli risgiau i ddiogelwch gwybodaeth ac i fod yn bwynt amddiffyn cyntaf
- Rheoli a chynnal a chadw ein swyddfa er mwyn diwallu anghenion staff
- Ymchwilio i opsiynau i gydweithio â chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru a darparu gwasanaethau corfforaethol ar y cyd os bydd hyn yn ein gwneud yn fwy effeithlon
- Gwella swyddogaethau QiW (ein cronfa ddata rheoleiddio) er mwyn cynyddu gwerth ein buddsoddiad
- Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar swyddogaethau unrhyw feddalwedd arall, gan gynnwys ein system Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid a'n system Adnoddau Dynol.

Maes ffocws 3

Cynnal, datblygu a defnyddio sgiliau proffesiynol

Rydym yn cydnabod manteision buddsoddi mewn staff arbenigol proffesiynol. Rydym yn disgwyl i'n staff corfforaethol ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus drwy hyfforddiant, digwyddiadau arfer gorau, rhwydweithio â chymheiriaid a thrwy adolygu newidiadau i ddeddfwriaeth.

Rydym hefyd yn grymuso staff corfforaethol i ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau corfforaethol a chefnogi ein swyddogaethau rheoleiddio. Rydym yn annog staff corfforaethol i roi cyngor i staff rheoleiddio ar adolygu gwaith cyrff dyfarnu pan fo hynny'n cynnwys swyddogaethau a gyflawnir ganddynt – er enghraifft TG, trefniadau llywodraethu a sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi ein staff corfforaethol i fod yn aelodau o sefydliadau proffesiynol a grwpiau sector cyhoeddus perthnasol
- Buddsoddi mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Cefnogi digwyddiadau rhwydweithio proffesiynol cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru
- Cefnogi gweithgareddau rheoleiddio – gan gynnwys comisiynu cymwysterau ac adolygu a chydnabod cyrff dyfarnu.

Maes ffocws 4

Llywodraethu'n effeithiol ac yn effeithlon

Mae trefniadau llywodraethu da yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ein sefydliad yn cael ei redeg yn dda, yn gymwys, yn cydymffurfio, yn dryloyw ac yn cael effaith. Rydym yn cydnabod egwyddorion Nolan ar gyfer y rhai sy'n dal swyddi cyhoeddus – h.y. 'anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth' ac yn sicrhau bod y rhain yn rhan o'n diwylliant a'n hymddygiad.

Rydym yn ceisio sicrhau bod y systemau a'r prosesau cywir ar waith sy'n hysbys ac yn ddealladwy i'n staff ac sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd a'n hymddygiad effeithiol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau cydymffurfiaeth, gwneud penderfyniadau effeithiol a gwneud ein gwaith yn effeithlon.

Rydym am greu amgylchedd lle mae ein staff yn cael eu grymuso, yn cael digon o wybodaeth i wneud eu gwaith ac yn deall ein system reolaeth, eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u hawdurdod dirprwyedig yn dda.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein staff yn gwybod am ein system reolaeth ac yn ei deall, ac yn gallu cynnal ein safonau llywodraethu fel rhan o'u gwaith bob dydd
- Datblygu fframwaith sicrwydd llywodraethu cadarn sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a moesegol a'i roi ar waith
- Cynnal ein systemau a'n prosesau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol a'u datblygu ymhellach
- Rhoi trefniadau o ansawdd ar waith ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, gan gynnwys rhaglen waith a chynllun datblygu blynyddol ar gyfer y Bwrdd
- Helpu'r sefydliad i reoli ei wybodaeth a'i gofnodion yn effeithiol
- Helpu'r sefydliad i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Mesur y Gymraeg 2011, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Maes ffocws 5

Gwerthuso a gwella'n barhaus

Rydym yn cydnabod bod angen mesur perfformiad, gwerthuso a dysgu'n effeithiol er mwyn gwella'n barhaus.

Byddwn yn:

- Cynnal arolwg bob blwyddyn o gyflogeion ac yn helpu'r sefydliad i ymateb i faterion drwy weithredu o ddifrif
- Sicrhau bod gan bob swyddogaeth gorfforaethol ffordd o fesur perfformiad parhaus sy'n cynnwys adborth a metrigau priodol ac archwiliadau/sicrwydd trydydd parti
- Meincnodi ein swyddogaethau fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau corfforaethol yn cynrychioli gwerth am arian
- Helpu'r sefydliad i bennu a mesur amcanion a monitro'r ffordd y caiff y cynllun busnes blynyddol ei gyflawni
- Helpu'r sefydliad i gadw mewn cof unrhyw gyfleoedd i wneud defnydd da o ddatblygiadau ym maes technoleg ddigidol.

Her 1
Gweithredu fel sefydliad bach

Mae Cymwysterau Cymru yn sefydliad sy'n cyflogi llai na 100 o aelodau o staff. Un o'r heriau i sefydliad bach yw cyflawni'r hyn a ddisgwylir gan bob corff cyhoeddus, a sicrhau bod y swyddogaeth gorfforaethol yn dal i fod yn gymesur ar yr un pryd. Fel llawer o gyrff o faint tebyg, rydym yn gorddibynnol ar arbenigwyr unigol ac ni allwn gynllunio ar gyfer olyniaeth yn llawn drwy ddatblygu staff yn fewnol. Er ein bod yn agored i ystyried ffyrdd effeithlon o weithio, gan gynnwys cefnogi cyrff eraill, mae'n hollbwysig yn ein barn ni fod y swyddogaethau corfforaethol craidd yn cael eu cyflawni ar y safle gan ein staff ein hunain, gan eu bod yn cael effaith mor sylweddol ar ein diwylliant corfforaethol.

Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â bod yn fach drwy gyfathrebu'n dda, drwy alluogi staff i lenwi rhai bylchau neu roi cymorth i nifer o swyddogaethau a thrwy roi trefniadau parhad busnes ar waith sy'n ein galluogi i ymdrin â risgiau yn y byrdymor a'r tymor hwy. Rydym hefyd yn cydweithio â chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi ein gilydd lle y bo'n briodol.

Her 2

Y rhagolwg ariannol tymor canolig

Rydym yn cael grant bob blwyddyn ac nid oes sicrwydd ynghylch lefel y cyllid a gawn yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol bod llawer o bwysau ar gyllid cyhoeddus ac y gall llai o gyllid fod ar gael i ni yn y dyfodol. Rydym hefyd yn wynebu cynnydd uwchlaw chwyddiant yn ein costau staff, wrth i'r rhan fwyaf o'n staff symud o lefelau cyflog cychwynnol i lefel darged pob band drwy godiadau cyflog cynyddrannol blynyddol.

Rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae ein gweithgareddau yn llywio ein costau. Rydym yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gyflawni cynllun ariannol tymor canolig dros gyfnod treigl o dair blynedd sy'n seiliedig ar ein hamcanion strategol hirdymor ac sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer cyfres o senarios cyllido. Bob blwyddyn, rydym yn ystyried anghenion cyllidebol pob rhan o'r sefydliad o'r newydd a, phan fydd staff yn gadael, rydym yn adolygu pob swydd cyn recriwtio.

Her 3

Rheoli newidiadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau neu bolisïau

Mae'r rhan fwyaf o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Hyd yn oed os na fyddwn wedi ein rhestru, mae disgwyl i ni ddilyn yr egwyddorion. Yn aml, mae rheoliadau, canllawiau statudol neu bolisïau Llywodraeth Cymru wedi'u hanelu at sefydliadau mwy sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd, megis Awdurdodau Lleol neu'r GIG. Weithiau, mae'n anoddach i sefydliadau arbenigol llai roi'r rheoliadau hyn ar waith.

Rydym yn ystyried pob rheoliad, canllaw neu bolisi perthnasol a sut y gallwn fabwysiadu'r darpariaethau mewn modd effeithlon ac ystyrlon. Rydym yn ceisio ystyried bwriad y gofynion ac yna ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu priodol.

Her 4
Rheoli risgiau i'n henw da

Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru ers dwy flynedd. Fel sefydliad cymharol newydd sydd â rôl bwysig yn gyhoeddus, ni allwn fforddio gwneud camgymeriadau, a rhaid i ni ddatblygu a chynnal ein henw da. Gan ein bod yn fach, creffir ar ein penderfyniadau, ein gwariant a'n polisïau. Mae angen i ni ddangos bod ein penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth, yn dryloyw ac yn cydymffurfio.

Mae rheolwyr yn goruchwylio'r penderfyniadau a wneir a'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn fawr. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn ein helpu i ddatblygu ein ffordd o feddwl, ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu er mwyn rhoi gwybodaeth glir i'n partneriaid yn y sectorau addysg a chyflogaeth, y cyhoedd a'n staff ein hunain. Drwy gyfleu ein rôl mewn ffordd gyson a chlir, rydym yn ceisio gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gymwysterau yng Nghymru, ac felly ennyn ei hyder.

Adeilad Q2,
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Coedcernyw,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373222

© 2018 Cymwysterau Cymru